YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1897. RHIF 110.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCH. WILLIAM THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

[Yn herwydd yr anffawd o adael y darlun allan a ddigwyddodd yn y rhifyn diweddaf, yr ydym yn ail-argraffu yr erthygl ar Gwilym Marles; credwn fod teilyngdod a'r gwthrych talentog yn gofyn hyn—GOL.]

Ganwyd yn Brechfa, yn sir Gaerfyrddin, yn 1834. Yn dechreu ysgrifenu i'r cyfnodolion, 1845. Yn ysgol Ffrwdfâl, 1851. Cael ei dderbyn i Goleg Caerfyrddin, 1851. Yn Mhrif-ysgol Glasgow fel ysgolor Dr. Williams, 1856. Athraw i Islwyn 1857-1858. Yn cyhoeddi llyfryn o brydyddiaeth, 1859. Gweinidog Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa, 1860. Yr un flwyddyn yn agor Ysgol Ramadegol yn Llandyssul. Golygydd *Yr Athraw*, 1865. Yn cymeryd rhan arweinydd mewn Gwleidyddiaeth, 1868. Troad allan y ffermwyr, 1871. Troad allan Cynulleidfa a Gweinidog Llwynrhydowen, 1876. Adeiladu y Capel Newydd, 1877-1879. Adferiad yr Hen Gapel i'r Gynulleidfa, Awst, 1879. Marw Rhagfyr 11eg, 1879.—O'r *Llenor*, Gorphenaf, 1895*].

Yn mhlith ysgrifeniadau lluosog Dr. Smiles mae dau fywgraffiad yn dwyn enwau y ddau naturiaethwr Ysgotaidd, Thomas Edward, a Robert Dick, yn meddu dyddordeb anghyffredin. Dau ddyn tlawd oeddent mewn cymhariaeth, a dinod, wedi cyssegru eu hunain gyda brwdfrydedd mawr, i ganghenau neillduol o wyddor, ond wedi aros yn y cysgod trwy eu hoes heb enill unrhyw gydnabyddiaeth ar ran y cyhoedd cyfattebol i werth eu talent a'u llafur. Smiles, mewn gair, oedd eu darganfyddwr. Efe a'u dygodd i sylw ac a adgofiodd y byd unwaith yn rhagor fod angelion, yn ffurf

* Cyhoeddedig gan Hughes a'i Fab, Gwrecsam. Pris swllt. Gobeithiwn y bydd yr ychydig sylwadau a ganlyn yn foddion i arwain y darllenydd at yr erthygl yn y *Llenor* gan un o fywgraffwyr mwyaf medrus a phoblogaidd Cymru. Mae yn werth pris y Rhifyn a llawer mwy.

meibion athrylith, cynnyrchion prinaf gwaith llaw y Creawdwr Mawr, yn ymweled a chonglau o hono yn ddiarwybod. Nis gellir dweyd fod Gwilym Marles mor anadnabyddus tu allan i'w gartref ac oedd Thomas Edward a Robert Dick. Yr oedd iddo gylch helaeth o gyfeillion ac edmygwyr trwy Ddeheudir Cymru ; ac yr oedd ef a'i helyntion wedi gwneyd i fyny benod ryfedd a dyddorol yn hanes ei wlad. Ond am Gwilym Marles fel dyn o athrylith, fel un wedi ei eni yn fardd o'r iawn rŷw, a'r crebwyll barddonol wedi ei ddadblygu ynddo mor uchel fel y deil ei gymharu a beirdd mwyaf ei genedl. Mae'r byd Cymreig yn ddyledus i'r erthygl odidog yn *Y Llenor* o'r hon yr ydym wedi dyfynu yn barod, yn nghyd a'r casgliad o farddoniaeth sydd yn attodiad iddi. Mae ysgrifenydd yr erthygl yma, fel Dr. Smiles, wedi bod yn ddarganfyddwr, ac wedi codi Gwilym Marles o'i ddinodedd barddonol fel pe byddai ; gyda'r canlyniad fod y llenor a'r hanesydd enwog Mr. O. M. Edwards, M.A., Rhydychen, yn ei restri ef gydag Islwyn fel y ddau fardd Cymreig mwyaf eu darfelydd *(imagination)* a fagodd Cymru yn yr oes hon. Yn *Welsh Lyrics of the Nineteenth Century* a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn hon, ymddengys cyfieithiad Saesneg o ddwy gân o'i eiddo, a dywed y cyfieithydd, y Parch. Edmund O. Jones, ficer Llanidloes, y byddai cyhoeddiad o'i weithiau yn wasanaeth sylweddol i lenyddiaeth Gymreig.

Ar wahan oddiwrth ei farddoniaeth, yr oedd llawer oeddent yn gynnefin ag ef, yn gwybod am ei deithi meddyliol, ac wedi cael y fraint o'i glywed ar yr esgynlawr ac yn y pwlpud, wedi eu hargyhoeddi o'r blaen mai dyn mawr oedd ; ac y buasai yn llawer mwy yn ngolwg ei genedl, ac wedi gwneyd mwy, oni bai am ddau achos oeddent wedi cyfyngu ei ddylanwad a'i allu. Un peth : yr oedd yn perthyn i enwad bychan, neillduedig, a dinod, ac felly heb ond ychydig fanteision a chyfleusderau i'w alluoedd anghyffredin fel pregethwr i gael eu gwerthfawrogi. A gwaeth na'r cwbl, yr oedd wedi gadael, wrth lais cydwybod, yr enwad mawr poblogaidd y perthynai iddo pan yn ieuanc, ac wedi cofleidio heresi ag y dywedir yn mhob man yn ei herbyn. Mewn gwlad fel Cymru lle mae cyssylltiadau crefyddol yn ffurfio rhwymau mor gadarn a chyssegredig, yr oedd ef yn hollol allan o gydymdeimlad a mwyafrif mawr ei genedl ar y mater pwysicaf o'r oll.

Hefyd, yr oedd wedi ei orfodi gan amgylchiadau i fod yn ysgolfeistr, a rhwng ei waith caled yn yr ysgol a'i ddyledswyddau fel gweinidog am lawer o flynyddau ar *dair* o gynulleidfaoedd, prin iawn oedd ei amser i gwrteithio ei athrylith fel bardd a llenor ; ac mae'n syndod iddo gael hamdden i ysgrifenu cymaint ag a wnaeth. Gwaith caled a ffwdanus ofnadwy ydyw gwaith yr Ysgolfeistr i ddyn hollol *prosaic*, heb un wreichionen o farddoniaeth ynddo, fel y gallwn ni dystio oddiar brofiad ; ond pa faint mwy ydyw i fardd ag mae ei ddychymyg hedegog yn curo ei esgyll yn erbyn muriau ei garchar o ddydd i ddydd ac yn curo yn ofer. Am ei waith caled fel

ysgolfeistr gallwn ddweyd, gydag un cyfnewidiad, yn ngeiriau ei ragflaenydd, yr enwog Ddafis o Gastellhywel—

"Gauaf llafur, dros ei fywyd,
Lethai ei yspryd gwych i lawr,
Ac a rewai fywiol ffrydiau
Swydd gynheddfau ei enaid mawr."

Ond os mai dygn angenrheidrwydd a'i gwnaeth yn ysgolfeistr, gwyr y wlad yn mhell ac agos iddo gyflawni dyledswyddau y cylch hwnw, gyda zêl frwdfrydig, medr digymar, a llwyddiant mawr.

Pe buasem yn gwneyd yr ychydig nodion gwasgarog yma yn sylwedd pregeth, y testyn fuasai "ynddo ef yr oedd bywyd." Egni diymattal oedd cyweirnod ei yrfa. Gweithiai a'i holl egni y ddyledswydd oedd yn gorwedd agosaf ato. Yn ei ddyddiau goreu dawnsiai ei gorph gan fywyd mewn ufudd-dod i symudiadau bywiog a diorphwys ei feddwl; ac yr oedd ryw yni trydanol yn treiddio trwy ei bregethau, ei weddiau, a phob peth a wnelai. Nid yw yn syndod, gan y llosgai fflam bywyd mor angerddol, ac yn fwy felly yn wyneb treialon chwerw blynyddoedd diweddaf ei oes, fod ei nerth wedi gostwng ar y ffordd a'r diwedd wedi do'd a'i waith heb haner ei wneyd. Marw yn bump-a-deugain oed, yn nghanol ei ddefnyddioldeb, gydag adnoddau cyfoethog o wasanaeth daionus a gymerent flynyddau lawer yn ychwaneg i'w dihysbyddu,—yn ein hanystyriaeth yr ydym ambell waith yn barod i ddweyd fod bywyd drylliedig fel yma yn fethiant. Ond yr ydym yn camsynied. Nid wrth ei hyd yn unig mae gwerth bywyd i gael ei brisio. Mae gan fywyd hefyd ei led i gael ei fesur wrth ei angerddoldeb, ei ymgyssegriad, wrth yr anhawsderau sydd wedi eu gorchfygu, a'r methiantau sydd wedi eu gweddnewid i fod yn fuddugoliaethau. Ac mae helaethrwydd ei led yn gwneyd i fyny am ddiffyg ei hyd. Bywyd felly oedd bywyd Gwilym Marles. Bywyd dyn mawr ydoedd, a delw athrylith ar ei holl symudiadau, a'r athrylith hono yn fyw gan ymlyniad brwdfrydig wrth ddyledswydd sydd wedi gwneyd ei wasanaeth fel llenor, fel diwygiwr mewn Gwleidyddiaeth a chrefydd, fel gwron a safodd a'i wyneb yn hyf at y gelyn yn nydd y frwydr, yn ran o'r *capital* trwy gymhorth yr hwn mae dynoliaeth yn myned yn mlaen ar yrfa ei chynydd. Er wedi marw mae yn llefaru etto, ac erys dylanwad ei fywyd a'i esiampl yn ysprydoliaeth i filoedd ydynt yn llafurio, gan gredu fod llawer pant etto i'w gyfodi, a llawer mynydd a bryn etto i'w gostwng, cyn y bydd ffordd yr Arglwydd wedi ei pharottoi ar y ddaear.—W. J

RHYS MORGAN O BEN CRAIG NEDD.

Tua'r flwyddyn 1744 canodd y bardd englynion i anerch Edwart Ifan ar ei briodas, a tua'r un amser canodd yr englyn yma ar briodas ei gyfaill Lewys Hopcyn :—Gair a gant Rhys Morgan, i lwyddo Lewys Hopcyn o'i briodas :

I Lewys felus foliant—ail Gomer,
A'i gymmar boed llwyddiant,
A da foetha di fethiant,
Heb ble, a digon o blant.

Cydnabyddodd y bardd-briodfab yr englyn uchod â deuddeg o englynion diolchgarwch i'r bardd o Ben Craig Nedd am ei ddymuniadau da.

Tua'r flwyddyn 1745 bu ein harwr mor anffodus a chael ei daflu i garchar Caerdydd, am bwy drosedd nis gwyddis. Yr oll a wyddom am yr amgylchiad a geir yn yr hyn a gofnodir yn yr *Eurgrawn,* yr hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1770, ac fel hyn y mae, "Cywydd o waith Rhys Morgan, o Ben Craig Nedd, pan oedd efe yn garcharor gan Arglwydd Mansell, yn Ngharchardy Caerdydd,—yr hwn a ddanfonodd efe at Ioan Bevan Ysw., i'w gyflwyno i William Duc Cumberland, yn cynyg ei wasanaeth ynghyd a'i gydgarcharorion yn amser y gwrthryfel yn Ysgotland,—yn ddwy ran. Y rhan gyntaf o gyfarchiad gwell i'r Duc, a'r ail, yn gosod allan y gwrhydri a'r gorchestion wnaent drosto, os byddai iddo eu rhyddhau o'r carchar."

RHAN I.

O am bin ysgrifenu
A llawen goeth awen gu
A synwyr maith syn yw'r modd,
A medru wyth rhan ymadrodd.
A thafod a iaith hefyd,
Inc hen, i'w dodi ynghyd.
Yn felus gân o flys gwin
Ail i asiad Taliesin.
Cael gosod mawrglod yn glau
Eithaf briodoliaethau,
William wr ddinam ddoniawl
A'i wedd a'i hynedd a'i hawl :
Am ei wedd gormod o waith,
Yru mewn unrhyw araith.
Ormodedd heb drosedd drwch
Na digon am ei degwch,
A'i hynedd ydd ei henaint,
O'u bron oeddynt deulu braint.
Mab heb rin, brenin ein bro
Difai a ydyw efo,
Mab brenin dewid diwall
Ac wyr yw yn llwyr i'r llall
Llywydd cain Brydain o'r bron
Cyweirddoeth ac Iwerddon.
Dwu deyrnas, deued arnynt,

Doed o gwrs fel ei deidiau gynt,
Rheoled llwydded er lles
Hyny bair gofio ei hanes,
Fel William oreu am wr
Gainc wrol y Concwerwr,
Neu Absolon lon ei lu
A'i geraint idd ei garu.

RHAN II.

Rym ni lu o deulu da,
I'mwg yn y ty yma,
O weision hagar yn segur
A oes gwaith neu eisiau gwyr?
I guro gelynion gerwin
O'u clod a'u trafod a'u trin?
Curwn ni gyda'n ceraint
Bob gwr dri o'u bri a'u braint,
Gwnawn drostaw fo draw ryw dro
Ran ceraint o ran curo.
Ysgydwn gig ac esgyrn,
Gelynion chwerwon yn chwyrn,
Coeled ni fel cewri cas
Darniwn o gylch y deyrnas,
Ei elynion ol-yn-ol
Gwyr o nerth ni'n gyr yn ol.
Darniwn a dyrnwn mewn dig
Ffrancod fel llygod ffrengig,
Ac os caed in' fwscedi,
Caled eu naws coelied ni.
Saethwn gyrwn yn gywrain
Ffenestri trwy rhestri o rhain.
Nes gwelom dai a gwledydd,
Cadis a Pharis a'i ffydd.
Heb ddadl os cystadl fe'm câr
A'n cyrchu maes o'r carchar.

Mae yn debygol mai tuag amser cychwyniad y fyddin i gyfarfod a'r gwrthryfelwyr y canwyd y gywydd uchod—ac ni wyddai y bardd fawr y pryd hwnw am gigeidd-dra y Duc Cumberland tuag at breswylwyr dewrion ucheldiroedd Ysgotland.

Yn 1745—6 y cymerodd hyn le. Arglwydd Mansel, y cyfnod hwn, oedd y boneddwr adnabyddus wrth yr enw Bussy Mansel, o Fargam, yr hwn a gynrychiolodd y sir am lawer o flynyddau yn y senedd. Gwnawd ef yn Arglwydd Mansel yn 1744, a bu farw yn 1750.

Tua chanol y ganrif ddiweddaf, gwnaethpwyd y ffordd fawr o Gastellnedd i Bontneddfechan, yr hon oedd anturiaeth bwysig iawn yn yr amser hwnw, a chawn yr englynion yma ar yr achlysur. Nid wyf wedi eu gweled i gyd mewn argraff hyd yn hyn, ond mae genyf yn fy meddiant nodyn, yn llaw Taliesin ab Iolo, yn sylwi eu bod wedi ymddangos mewn hen gylchgrawn anghofiedig, gafodd ei argraffu tua chant a haner o flynyddau yn ol.

Englynion o ganmoliaeth i'r ffordd newydd sy'n arwain o Gastellnedd yn Morganwg i Bontneddfechan.

Ffordd lydan wiwlan olwg—ffordd luniaidd,
Ffordd lana'n Morganwg ;
Ffordd union ddi-droion drwg
Yn gyttun trwy blwyf Cattwg.

Ffordd gyfan, ffordd lan luniaidd—mae 'leni
Yn lanach na'r llynedd ;
O bob man mae'n gyfanedd
I ni fyn'd i Gastellnedd.

Ffordd men ac ychen heb achos—ymlid,
Ffordd amlwg ddechreu-nos ;
Ffordd eglur a ffordd eglos,
Ffordd cant heb na phant na ffos.

Creigydd a gelltydd gwylltion—dolydd
Ardaloedd Nedd dirion ;
Rhwydwyd a braenwyd eu bron
Ffwrdd unwaith, gael ffordd union.

Brycheiniog enwog oedd unwaith—y gwyr
Am g'weirio ffordd gyfraith,
Ond gwlad Forgan wiwlon waith
Dilau yw copi'r dalaith.

Doethineb y neb allodd nabod,—gwall
Oedd gwella'r hen ddefod ;
Y cynfyd ni allodd ganfod
Yn oes y byd fod eisie'n bod.—*Rys Morgan a'i Cant.*

Ond mae yn debyg na orphenwyd y ffordd newydd am hir amser wedi ei chychwyn—ac felly yn ol ysbryd yr amserau, gwrth-ddywedwyd yr uchod gan Edwart Ifan yn y dull chwareugar a ganlyn :—

Gormod o frys Rys er hau—dy gerddi
Cu eirddoeth ganiadau,
Mae'r ffordd, o brif ffordd, wr brau,
Wych aplaf, heb ei chwplau.

* * * * *

Ond i'r lan drwstan dristwch—tua'r Llein
Mae'n llawn o ddiffeithwch,
Gan bob rhyw serth anferthwch
Gerig yn llethrig y llwch.

Yn gymydog i Rys Morgan yn Nyffryn Nedd yr oedd bardd o'r enw Hywel Bifan, ac ar un tro, pan oedd offeiriad y plwyf wedi dyfod ar ymweliad i'w dy ef, lle y cyfarfu hefyd a'r bardd o Ben Graig Nedd, treuliasant y noswaith yn Rheola—nid y palas presenol, ond hen amaethdy a safai ychydig ganoedd o latheni i'r gorllewin oddiwrth y palas—a phan ar y boreu yn ymgyrchu i'w gwelyau,

amlygodd Rys ei syndod na fuasai'r offeiriad yn dweyd "gair" ar ol swper, i'r hyn yr atebodd Hywel Bifan yn ffraethlym :—

Rys Morgan fwyn ei anrheg
Mae'ch awen goeth yn rhedeg :
Na feiwch ar y gwaelaidd was,
Fe ddywedodd ras yn Saesneg.

Nid yw haneswyr y dyffryn yn ein hysbysu pa bryd y bu Rys Morgan farw, na pha le y claddwyd ef, ond nis gall fod fawr amheuaeth nad yn hen fynwent Llangattwg—mynwent ei blwyf ei hun, mae ei weddillion yn gorwedd, ond mae "man fechan ei fedd" wedi ei anghofio. Bu farw o flaen ei gyfaill Dafydd Nicholas—canys yr oedd yr olaf yn ei angladd—ac mae traddodiad yn dweyd y gwyddai y rhai oeddynt yn yr angladd eu bod yn arfer ymryson a'u gilydd, a hwy o gymellasant Dafydd Nicholas dan yr elor, mewn lle diffaith iawn, a gadawsant iddo ddwyn y corph am gryn ffordd. O'r diwedd, cafodd ei ryddhau o'i orchwyl caled, pryd y dywedodd—"Ti a fuost yn galed iawn imi pan yn fyw, ond gwaeth na'r cwbl yw y faethgan hon a gefais genyt yn farw."

Fel llawer o hen gymeriadau nodedig yr oesau o'r blaen, yr oedd yr hen fardd o Ben Craig Nedd, yn ddyn cyflawn ac hynod o ddefnyddiol ymhlith ei gymydogion. Dywed hen ysgrif sydd yn fy meddiant ei fod yn medru chwareu y delyn Gymreig, ei fod yn wneuthurwr telynau, yn feddyg, a thua diwedd ei oes, yn bregethwr. A chyfrif ei fanteision, gwnaeth yn fawr o'i amser, a bu yn ddefnyddiol iawn yn ei genhedlaeth.

Merthyr. D. T. Morgan.

LLINELLAU AR GARIAD CRIST.

O gariad at bechadur llafuriodd Iesu Grist,
O gariad at bechadur y bu yn wylo'n drist,
O gariad at bechadur er gwella'n beiau mawr,
Bu yma ar y ddaear heb le 'roi'i ben i lawr.

O gariad at bechadur yn diodde'r byd a'i wawd,
Er maint ein haneilyngdod ei arddel gawn yn frawd,
O gariad at bechadur dioddefodd angau'r groes,
Gan selio y gwirionedd bregethodd trwy ei oes.

Ac heddyw mae yn derbyn yr edifeiriol rai,
Diderfyn yw ei gariad a byth yn coffa bai,
O am gofleidio Iesu a'i fwyn gyngorion Ef,
Diogel, diogel fyddwn, Fe'n dwg i deyrnas Nef.

Mary Rees (Dyffrynferch.)

Adran yr Ysgol Sul.

GWERSI AR FYWYD IESU FEL EU COFNODIR YN YR EFENGYL YN OL MARC.

CHWEFROR 7fed, 1897.

GWERS XVIII.—BEDYDD A THEMTIAD IESU. (MARC i. 9—13; *Cymharer* MATT. iii. 13—17; iv. 1—10; LUC. iii. 21, 22; iv. 1—12.)

Y TESTYN EURAIDD.—*Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.*—MATT. iii. 17.

(A) Y BEDYDD (MARC i. 9—11.)

Sut yr aeth Iesu at Ioan.—Yr oedd y son am Ioan wedi taenu trwy'r holl wlad, a'r disgwyliad cryf a ffynai yn mhlith y bobl yn gyffredinol yn creu awydd ynddynt i fyned allan er gweled ai efe ydoedd. Clywodd Iesu, fel eraill, am dano, ac am ei addysgiadau a'i waith. Mae'r oll yn cydfyned a'r hyn sydd wedi bod yn ei feddwl yntau am gryn amser, a theimlai chwant i fyned allan i'w weled a'i glywed, ac efallai hefyd, i'w gynnorthwyo.

Yr Ymgyfarfyddiad.—Yr oedd Ioan yn bedyddio, yn debygol, ar lan yr Iorddonen yn Judea, yn agos i'r Mor Marw. Yr oedd y bobl yn myned allan ato o bob cyfeiriad i gael eu bedyddio fel arwydd o barottoad ar gyfer y deyrnas oedd ar bwys. Ac aeth Iesu atto yn hollol yn yr un modd a chyda'r un amcan. Dywed Matthew fod Ioan wedi adnabod Iesu fel y Messiah pan aeth ato. Mae'n bosibl eu bod yn adnabod eu gilydd o'r blaen, ac fod Ioan yn gweled yn Iesu un oedd yn cydymdeimlo a'i waith, ac yn barod i'w gynnorthwyo. Ac yr oedd yn iawn. Ond er yn cydymdeimlo a'i amcan, nid oedd yn cydfyned a dull Ioan o gyrhaedd ei amcan. Yr oedd y ddau yn dra gwahanol yn eu dull allanol o weithredu. Gweler Luc ix. 33, 34. Yr oeddynt, hefyd, yn wahanol yn eu syniadau: ceisiai Ioan ddychrynu dynion i edifarhau; ceisiai Iesu eu denu trwy bregethu Cariad a Thadoldeb Duw.

Yr Hanes.—Rhoddir hanes bedydd Iesu gan y tri Efengylwr cyntaf. Mae'r tri yn gwahaniaethu cryn dipyn, ond maent yn cyduno ar y ffeithiau canlynol: fod Iesu wedi myned allan at Ioan ac wedi cael ei fedyddio ganddo, fod yr ysbryd wedi disgyn arno pan ddaeth i fyny o'r dwfr, ac fod llef o'r nef wedi ei gyfarch yn y geiriau, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." (Nid yw'r geiriau yn hollol yr un peth yn y tair Efengyl).

(B.) Y TEMTIAD (Marc i. 12, 13.)

Yr Hanes.—Rhoddir yr hanes hwn ettø gan y tri Efengylwr cyntaf. Amrywiaeth yn y tri hanes: cymharer hwy. Swm yr hanesion: fod Iesu, ar ol ei fedydd, wedi cael ei yrru i'r anialwch gan yr ysbryd, ei fod wedi aros yno ddeugain niwrnod, yn ystod yr amser hwn ei fod wedi cael ei demtio gan Satan, a'i fod wedi buddugoliaethu arno.

Naturioldeb yr Hanes.—Ar ol cael ei fedyddio gan Ioan, naturiol yw meddwl fod Iesu wedi cael ei feddianu yn llwyr gan feddyliau a syniadau pwysig yn nghylch y gwaith oedd yn ymagor o'i flaen. Ac y mae'n llawn mor naturiol meddwl ei fod wedi ymneillduo i le dirgel—i'r anialwch—er ffurfio cynlluniau a pharotoi ei hun ar gyfer y gwaith hwn. Hyn wedi cael ei wneyd gan lawer heblaw Iesu: Moses, Ioan, Paul, &c.

Yr hanesion fel y maent.—Tebyg fod llawer o'r traddodiadol yn yr hanesion hyn yn y ffurf y rhoddir hwynt yma. Credai'r Iuddewon mewn ysbrydion drwg; ac y mae yn bosibl fod Iesu yn credu ynddynt hefyd. Fel yr oedd Iesu yn cynrychioli teyrnas daioni, felly yr oedd y diafol yn cynrychioli y drwg, ac y mae'r ymdrech rhwng y ddau yn cael ei gosod allan ar ffurf temtiad a ddaeth i gyfarfod a Iesu ar ddechreu ei weinidogaeth. Nis gallwn bellach roi coel i'r dyb fod Satan personol wedi bod gyda Iesu; ac os, yn ystod yr amser y bu yn yr anialwch, y cafodd ei demtio, nid oedd y temtiad yn ddim ychwaneg na'r ymdrech rhwng amcanion a meddyliau goruchel a da. Sonia Matthew a Luc am dair temtasiwn (sylwer beth ydynt), ac y mae'r tair yn cynrychioli'r profedigaethau oeddynt yn barhaus yn gwynebu Iesu yn ystod ei weinidogaeth: (1) Tlodi; (2) Ceisiadau cyfeillion a gelynion am arwyddion; (3) Y gred (a ddelid gan ei ganlynwyr) ei fod yn myned i yru y Rhufeiniaid allan o'r wlad, ac yn myned i osod i fyny ei deyrnas ei hun yn Jerusalem yn eu lle.

(C.) NODIADAU EGLURHAOL.

Ad. 9.—*Yn y dyddiau hyny.*—Gesyd Luc yr amser yn y 15fed flwyddyn o ymerodraeth Tiberius Cesar, o.c. 28 neu 29. *Nazareth yn Galilea.*—Tebyg fod yr efengyl wedi ei hysgrifenu er mwyn y cenhedloedd oeddynt yn byw yn mhell o Palestina, a pha rai mewn canlyniad na wyddent yn mha le yr oedd Nazareth.

Ad. 10.—*Efe a welodd.*—Gweledigaeth fewnol, neu'r argraff a wneir ar y meddwl gan unrhyw ddigwyddiad. *Y nefoedd yn agored.* Yn yr hen amser credid fod Duw yn trigo yn yr awyr, a phan fyddai ganddo genadwri i'w thraddodi i ddynion, tybid fod y nefoedd yn agored. Gweler Ezeciel i. 1. Iaith ffigyrol yn gosod allan y gwirionedd fod cymundeb a Duw yn bosibl i'r sawl sydd yn ei geisio. *Yr Ysbryd.*—Y dylanwad dwyfol er ei alluogi i wneyd ei

waith. *Colommen.*—Yn mhlith yr Iuddewon defnyddid y gair hwn yn aml fel arwyddlun o'r Ysbryd Dwyfol.

Ad. 11.—*Llef.*—Credai'r Iuddewon fod Duw yn siarad weithiau mewn llais dynol. *Tydi yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.*—Meddwl yr ysgrifenydd yw fod Duw wedi eneinio Iesu ar Ysbryd Glan ac a gallu, ac wedi ei ddyrchafu i'r swydd Fessianaidd ar adeg ei fedydd. Nid yw Marc yn cydfyned a Matthew a Luc yn hyn; yn ol y ddau hyn yr oedd y cymeriad Messianaidd yn perthyn iddo o'i febyd.

Ad. 12 a 13.—*Yr Ysbryd.*—Yr un ag y sonir am dano yn adnod 10. Mae'r awydd dwfn oedd wedi ei feddianu i fod ar wahan oddiwrth y bobl i ystyried, a meddwl am ei waith yn cael ei briodoli i ddylanwad yr ysbryd.—*Diffaethwch.*—Yn ol traddodiad, yr aniałdir ar y tu gorllewinol-ogleddol i Jerico. *Yn cael ei demtio gan Satan.*—Ystyr y gair Satan yw, gwrthwynebydd. Yr oedd Iesu wedi penderfynu cysegru ei fywyd i'r gwaith oedd Ioan wedi ei ddechreu; ac yr oedd hyn yn golygu bywyd caled, a thlawd, a helbulus; a hawdd y gallwn gredu fod meddyliau yn ymgynyg iddo oeddynt yn tueddu i siglo ei benderfyniad, ac i'w rwystro i ymgymeryd a'r gwaith oedd o'i flaen. (Am gred yr Iuddewon mewn diafol ac angylion drwg, gweler *Life in Palestine*).

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

(1) Yn mha le yr oedd Ioan yn bedyddio? (2) Yn mha flwyddyn o'r cyfnod Cristionogol y bedyddiwyd ef? (3) Enwch y ffeithiau am ei fedydd a'i demtiad yn nghylch pa rai y mae'r tri efengylwr yn cyduno. (4) Yn mha le yr oedd y diffaethwch y sonir am dano yma? (5) Beth oedd y tair temtasiwn a ddaeth i gyfarfod a Iesu?

GOFYNIADAU I SAFON 4.

(1) Beth, yn debygol, a arweiniodd Iesu at Ioan? (2) Pa wahaniaeth sydd rhwng Marc a'r ddau efengylwr arall gyda golwg ar yr adeg y derbyniodd y swydd o Fessiah? (3) Desgrifiwch y gwahaniaeth rhwng Ioan a Iesu yn *(a)* Eu dull allanol o weithredu; ac yn *(b)* Eu haddysgiadau. (4) Beth yw y syniad mwyaf rhesymol am y temtiad?—D.E.

CHWEFROR 14EG.

GWERS XIX.—IESU YN DECHREU EI WAITH.

(Marc i. 14—15; Cymharer Matt. iv. 12—17; Luc iv. 14—15.

Y TESTYN EURAIDD.—"*Yr amser a gyflawnwyd, a theyrnas Dduw a nesaodd; edifarhewch, a chredwch yr efengyl.*"

Cyweirnod y wers yma ydyw traddodiad Ioan i garchar gan Herod Antipas. (Gwel Marc vi. 17—20). Yr amgylchiad yma yn

debygol fu yn achlysur i Iesu i benderfynu dyfod allan heb oedi i gymeryd lle Ioan, ac i gario allan ei waith, er mewn ystyr uwch a chydag ysbryd gwahanol. Felly mae mantell un proffwyd yn disgyn ar ei olynydd, a baich gair yr Arglwydd yn cael ei drosglwyddo o un ysgwydd i'r llall. Gwnaeth llabyddiad Stephan Paul yn apostol; a phan y diflanodd Ioan Fedyddiwr o'r golwg, torodd gwawr ar y ddaear yma, na welwyd dim o'i thebyg cyn hyny nac wedi hyny, yn ymddangosiad cyhoeddus yr hwn a ddaeth i fod yn "oleuni y byd."

Adnod 14. *Traddodi.*—Hyny yw, i ddwylaw ei elynion, er mwyn cael ei garcharu. Dywed Josephus mai amddiffynfa unig o'r enw Machaerus, yn agos i draeth dwyreiniol y Mor Marw, oedd ei garchar.

I Galilea.—Yn ol Matt. iv. 12, gallwn gasglu i Iesu ddyfod i fyny i Galilea o'r diffaethwch, lle cafodd ei demtio. Eithaf tebyg yr ystyriai ei bod yn beryglus iddo i ddechreu ei waith yn y rhan hono o'r wlad, lle yr oedd Ioan wedi creu cymaint o gyffro. Yn Judea, hefyd, yr oedd canolbwynt y grefydd Iuddewig gyda'i hoffeiriaid a'i defodau, a'r holl alluoedd ceidwadol hyny oeddent wedi crynhoi oddiamgylch hen sefydliadau. Yr oedd pobpeth yno allan o gydymdeimlad ag ysbryd un oedd ar ddyfod allan fel diwygiwr, ac fel proffwyd trefn newydd o bethau. Yn Galilea yr oedd yn wahanol. Gwyddai am ei phobl y byddent yn fwy parod i wrando arno, gan eu bod yn fwy syml eu harferion a'u meddyliau, yn fwy agored i dderbyn syniadau newydd. Yn ol Luc iv. 16—29, dywedir iddo fyned i Nazareth yn Galilea, ei dref enedigol, ac mai ar ol cael ei wrthod yno y darfu iddo fyned i waered i Capernaum, ar lan mor Galilea; ac yn nghanol golygfeydd prydferth y rhanbarth hwnw, gyda'i drefi poblog, a'i weithgarwch diflino, y treuliodd y rhan fwyaf o gyfnod llafurus ei weinidogaeth. (Gweler manylion am Galilea, hanes ac arferion ei phobl, yn *Life in Palestine*).

Efengyl teyrnas Dduw.—Yn ol y Cyfeithiad Diwygiedig, *efengyl Duw*, hyny yw, newyddion da, nid *am* Dduw, ond *oddiwrth* Dduw. Mae a fyno'r newyddion da a *theyrnas Dduw*, fel y gwelir oddiwrth yr adnod nesaf.

Ad. 15. *Yr amser a gyflawnwyd.*—Mae'r ymadrodd yma yn neillduol i Marc a'i gymharu a'r efengylwyr eraill, ond sonia Paul am "gyflawnder yr amser" (Gal. iv. 4; Eph. i. 10). Yr ystyr yw fod y cyfnod oedd i barhau hyd sefydliad teyrnas y Messiah ar ddarfod, a bod oes newydd arall ar ddechreu. Yr oedd hwn yn syniad hollol Iuddewig, ond yn ngolwg Iesu, yr hwn a ddarllenai arwyddion yr amserau, ymddangosai pob peth fel yn addfed a ffafriol ar gyfer mudiad newydd yn hanes y byd.

A theyrnas Dduw a nesaodd.—Yr oedd y geiriau "teyrnas Dduw" a "theyrnas nefoedd" yn ngenau pawb bron yn yr oes hono, fel y mae y gair "dadgysylltiad" yn y dyddiau hyn yn

Nghymru. Darfu i'r Iesu gymeryd i fyny ymadrodd oedd mor gyffredin, a rhoddi ystyr newydd ac ysbrydol iddo.

Teyrnas Dduw yn yr ystyr Iuddewig.—Yr oedd dau olygiad yn cael eu cysylltu a'r ymadrodd: (1) Yr un offeiriadol, yr hwn a ystyriai oes y Messiah fel cyfnod o ledaeniad a dyrchafiad Israel fel cenedl, i gael ei ddwyn oddiamgylch gan burdeb moesol a defodol, yn canlyn oddiwrth ufudd-dod perffaith i ddeddf Moses; (2) Yr un gwleidyddol, a edrychai ymlaen am chwyldroad gwaredigaeth y genedl oddiwrth yr iau Rufeinig, a sefydliad y brenin Messiah ar ei orsedd yn Jerusalem. Yn ol y ddau olygiad, yr oedd y deyrnas yn rywbeth i ddisgwyl am dano, a thuhwnt i gyraedd ymdrech bersonol, ac i gael ei ddwyn oddiamgylch mewn modd gwyrthiol.

Syniad Iesu am y deyrnas.—Mae Iesu yn dihatru yr ymadrodd o'r syniadau materol hyn, ac yn dweyd—"Telwch chwithau yr eiddo Cesar i Cesar a'r eiddo Duw i Dduw." "Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn;" "ni ddaw teyrnas Dduw wrth ddisgwyl." Beth ydyw ynte? Dywed un, "Lle bynag mae calonau dynol yn gwasanaethu Duw fel eu brenin, yno mae ei deyrnas." Bywyd mewnol yr enaid ydyw, sefyllfa berffaith dyn fel bod ysbrydol, yn bosibl iddo fel plentyn Duw, ac i'r hon y gall fyned i mewn trwy nerth ei ewyllys ei hun. Yn fyr, syniad Iesu am y deyrnas fel y gosodir hi allan yn ei ddywediadau a'i ddamegion ydyw, mai edifeirwch yw y parotoad iddi, tyfiant ydyw dull ei dadblygiad, cariad at Dduw a chariad at ddyn yw ei chymhelliad, a phurdeb calon yn blodeuo mewn gweithredoedd sanctaidd a daionus ydyw nodwedd y bywyd mewnol sydd yn ei gwneyd i fyny.

A chredwch yr efengyl.—Yn ol y Cyfieithiad Diwygiedig—"*yn yr efengyl*," neu yn hytrach "*yn y newyddion da.*" Rhaid ini anghofio y syniadau diweddarach sydd wedi eu cysylltu a'r gair *efengyl*, a meddwl yn unig yn y man hwn mai dyfodiad buan y deyrnas ddisgwyliedig oedd yn cyfansoddi y newyddion da. Rhaid i ni hefyd wneyd yr un peth a'r gair "credu." Mae iddo ei ystyr dduwinyddol erbyn hyn; ond yma nid yw yn golygu dim mwy na llai na chred syml fod teyrnas Dduw wrth y drws. "Os oes cyfwng pwysig ar ddyfod, ac os yw dynion i gael eu parotoi ar ei gyfer, y peth cyntaf gofynol i'w wneyd yw credu yn ei ddyfodiad." —*(Gould).*

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

(1) Adroddwch y testyn euraidd. (2) Beth yw pwnc y wers hon? (3) Beth yw ei chyweirnod? (4) Pwy oedd Herod Antipas? (5) Pa effaith gafodd carchariad Ioan ar Iesu? (6) Pwy oedd Stephan, ac yn mha le y cawn ni ei hanes? (7) Yn mha le y cafodd Ioan ei garcharu? (8) Paham y gadawodd Iesu Judea, ac yr aeth i Galilea ar ol clywed yr hanes am Ioan? (9) I ba dref yn Galilea yr aeth yn ol Luc? (10) Beth a ddigwyddodd iddo yno? (11) I ba

le yr aeth o Nazareth? (12) Yn mha le y treuliodd y rhan fwyaf o'i amser wed'yn? (13) Pa wahaniaeth yn narlleniad y 14eg adnod gawn ni yn y Cyfieithiad Diwygiedig? (14) Beth yw ystyr y geiriau "yr amser a gyflawnwyd" yn ol y syniad Iuddewig? (15) Rhoddwch y darnodiad byraf posibl o beth yw "teyrnas Dduw" yn ol ystyr Iesu Grist.

GOFYNIADAU I'SAFON 4.

(1) Pa ran o'r wlad oedd dan awdurdod Herod Antipas? (2) Yn mha le yn debygol oedd Ioan pan y cafodd ei gymeryd i fyny? (3) Rhoddwch dri rheswm paham yr aeth Iesu i Galilea ar ol carchariad Ioan? (4) Sut ydych yn cyfrif am fod Iesu wedi ei wrthod yn ei dref enedigol? (5) Pa fath le oedd glanau mor Galilea? (6) Crybwyllwch y gwahanol enwau a roddir i for Galilea? (7) Enwch y prif drefydd ar ei lanau? (8) Yn mha le yr oedd llys Herod? (9) Beth oedd Iesu yn alw ei genadwri? (10) A oedd y syniad am "y deyrnas" yn ddieithr i'r Iuddewon? (11) Enwch y ddau olygiad a gysylltent hwy wrth yr ymadrodd? (12) Beth oedd y gwahaniaeth mawr rhwng y ddau a syniad Iesu Grist. (13) Dywedwch yn fyr beth yw "teyrnas Dduw" yn ol Iesu. (14) Adroddwch y tair adnod sydd yn gosod allan nodwedd ysbrydol y deyrnas.

O.Y.—Dymunwn adgofio ein Hysgolion Sul y bydd yr arholiad yn cymeryd lle ar nos Fercher, Ebrill 7fed. Er mwyn rhoddi eithaf chwareu teg i'r rhai sydd yn parotoi i adolygu eu gwaith yn drwyadl, ni chyhoeddir rhagor o wersi yn rhifyn Mawrth. Cymerwn y gwaith i fyny ar gyfer yr ail arholiad yn rhifyn Ebrill, ac awn yn mlaen mor gyflym ag y gallwn gyda chynwys efengyl Marc. Byddwn yn ddiolchgar iawn am farn unrhyw ddarllenydd gyda golwg ar y gwersi sydd wedi eu cyhoeddi, ac am bob awgrym er mwyn eu gwella yn y dyfodol. Yn ddiameu bydd *Yr Ymofynydd* yn agored i ohebiaethau o'r fath.

W.J.

SYLWADAU AR UNDODIAETH.

Y dydd o'r blaen yr oeddwn yn siarad ag offeiriad o Eglwys Loegr. Gwyddwn beth o'i hanes ef; gwyddai yntau mai Undodwr oeddwn: ond nid oeddym wedi gweled ein gilydd erioed. Gan fy mod bob amser yn hoff o ddadleu, ac yn awyddus am wybod hyd a lled a dyfnder y bobl raid i mi ymwneyd a hwynt, rhoddais gyfleusdra i'r parchedig i draethu ei farn ar bynciau ddylasent fod yn agos at ei galon. Uchel-eglwyswr ydoedd, ac un amser bu yn hoff iawn

o losgi canwyllau ar yr allor, a hyny ganol dydd. A'i reswm dros wneyd hyny oedd, fod yn well ganddo "gredu gormod yn hytrach na rhy fach." Gofynais iddo beth yn ol ei farn ef oedd ystyr "credu?" A allai dyn gredu beth a fynai, neu faint a fynnai? Ai nid oedd yn *rhaid* i bob dyn gredu yn unol ar hyn welai, neu deimlai, neu feddyliai? Ei ateb oedd, y gwyddai fy mod wedi darllen llawer, ac y medrwn feddwl droswyf fy hun, ond fod y canwyllau yma a phethau o'r fath yn gynorthwy mawr i'r annysgedig. O'r goreu, meddwn inau, ychydig bach yn rhagor o ddysgeidiaeth, ac yna, yn ol eich gosodiad chwi, ni fydd perygl y gwna dynion "gredu gormod."

Ond rhaid cyfaddef fod yna lawer o bobl yn debyg i'r offeiriad yma; y maent yn awyddus iawn i fod ar y *safe side* bob amser. Cof genyf glywed dau hen wr—Undodiaid oeddynt—yn ymgom ynghylch y byd tuhwnt i'r bedd. "Wn i yn y byd beth i feddwl am y bywyd dyfodol yma hefyd," ebe un. "Wel," mi weda i wrthyt," medda'r llall—yr hynaf—"Gwell yw i ti gredu mewn bywyd i ddod: os nad oes y fath beth i fod, fydd neb yno i chwerthin ar dy ben di; ond os oes, fe gawset ti syndod ofnadwy i ffeindio dy fod ti yn fyw a thithau wedi meddwl mai marw fyddet." 'Nawr, 'does genym ddim i ddweyd yn erbyn rhesymeg yr hen wr; ond eto i gyd rhyw gredu rhyfedd yw credu rhag ofn cael syndod rywle, rywddydd. Math o "gredu gormod" yw er mwyn bod yn barod gyferbyn a phob achlysur. Gallem roddi llawer enghraifft arall o'r mater dan sylw. Ond nid oes angen am hyny Mae'r ffaith yn gyffredin iawn, ac y mae'r rhesymau dros hyny fynychaf yn hawdd i'w canfod. Ond rhy brin y gellir galw peth o'r fath yn gredu. Rhyw gymysgedd yw o obaith a ffydd yn ymdrechu ymdrech deg yn ngwyneb y dirgelwch mawr sydd o'n hamgylch yn mhob man. Yn hyn o beth yr ydym ni fel enwad ar yr un tir a'r enwadau eraill. Pan ani wybod rhywbeth am y byd tu hwnt i'r llen, yr ydym fel y creaduriaid y sonir am danynt yn y Beibl—y mae iddynt adenydd, a churant yr awyr yn gryf ar eu hynt tuag i fyny: ond dall ydynt, ni welant ddim, am y cuddiant eu llygaid â'u hadenydd.

"Credu gormod yn hytrach na rhy fach." Pwy sydd yn credu "rhy fach?" Gofynwch y cwestiwn i'r uniawn-gredwyr ac atebant ar unwaith fod yr Undodiaid yn credu rhy fach, eu bod yn colli llawer o gysur o herwydd hyny, ac y cant mewn byd a ddaw eu cospi am hyny. Dyna'r un cyhuddiad mawr ddygir yn ein herbyn fel enwad—ein bod yn credu rhy fach, nad ydym yn credu yn Nghrist, nad ydym yn credu yn y Beibl, nad ydym yn credu mewn dim, mai anffyddwyr ydym, *agnostics*, *infidels*, a phob enw cas arall. Beth yw ein hateb?

Yn nghyntaf, dywedwn fod yna amser wedi bod pan yr oedd gallu gan yr eglwys i ladd hereticiaid, a llawer oedd y rhai a erlidiwyd. Ond erbyn hyn y mae pethau wedi newid. Heddyw rhydd i bob meddwl ei farn, ac i bob barn ei llafar. A'r unig farnwr raid

i ni roi ateb iddo am ein barn yw Duw ei hun. Efe yw chwiliwr y galon; myn eirwiredd oddiwrthym; a gwae i'r neb—bydded *heretic* neu iawnffyddwr—nad yw yn ffyddlon i'w feddwl uwchaf! Pwy, carem wybod, sydd wedi gosod yr uniawngred yn farnwyr arnom? Pwy deitl sydd ganddynt hwy i'r swydd nad oes genym ninau hefyd! Beth pe yr ymgymerem ni a thynu allan restr o gredoau, a gofyn am gydffurfiad a hwynt, a chospi'r sawl na wnaent gydffurfio, gan bentyru gofid arnynt yn y byd hwn, a bygwth poenedigaeth dragwyddol iddynt yn y byd a ddaw. Galwent ni ar unwaith yn ynfydion, ac nid pell fyddent o'u lle. Ond, gofynwn unwaith eto, pa ragoriaeth sydd yn perthyn iddynt hwy? Pwy sydd wedi eu gosod ar y fainc i farnu? Yn llyfr Job y mae hanes am swyddwr hynod: ei waith yw tramwy ar hyd y ddaear, ac ymrodio ynddi; ei bwrpas wrth wneyd hyny yw ffeindio beiau yn ei gyd-ddyn; a'i enw ef yw Satan. 'Dyw'r swydd ddim wedi ei diddymu eto. Parod iawn yw pobl i bregethu'r farn a fydd. Ond feallai, wedi'r cyfan, y bydd hi yn y dydd mawr hwnw fel yn y dyddiau hyn. Yma, ar y ddaear, peth caled iawn yw gwahaniaethu rhwng y defaid a'r geifr, a'n profiad ni yw fod y wylofain a'r rhyngcian danedd yn beth cyffredin iawn; cwymp heddyw i ran y sant, yfory y pechadur sydd dani; ac er dim a wyddom ni, nid oes drwg a da yn ngolwg Duw—y mae pawb yn dda, a rhai yn well na'u gilydd.

Yn ail, dywedwn, os bach ein cred hyd yma, y mae ganddi siawns i dyfu. Bach yw'r hedyn ar y dechreu—ond hauer ef; yna, gyda daear odditano a nefoedd uwch ei ben, ac yntau a thipyn o natur tyfu ynddo, fe ddaw gydag amser yn dywysen, gwna addfedu, ac yn ei bryd fe ddyga ffrwyth yn ol ei natur. Felly yn union gyda ninau. Peth i dyfu yw meddwl dyn. Rhyddid yw elfen bywyd iddo. Dadblyga oreu pan yn agored i holl ddylanwadau nef a daear. Peth annaturiol—pe yn bosibl—fyddai i'r planhigyn ddweyd, "ni thyfaf mwy;" ac annaturiol, yn ol ein tyb ni, yw hi i neb wneyd ei feddwl i fyny, yn enwedig pan yn ieuanc, ar bynciau mawrion y bydysawd. Bu farw Goethe—doethwr y dyddiau diweddaf—gan ofyn am "ragor o oleuni." Os ydym yn cofio yn iawn, un o eiriau olaf Crist oedd, "Paham." Nid yw goreuon y byd byth yn gwneyd eu meddwl i fyny ar bob pwnc: carant fod yn agored i ddadguddiadau newydd Duw. Ac nid yr un bob amser yw ffurf gwirionedd. Y mae iddi un ffurf heddyw, un arall yfory. Ymddengys yn wahanol i'r dyn ieuanc i'r hyn wna i'r canol oed; ac i'r henafgwr y mae yn wahanol wed'yn. Felly rhaid cymhwyso ein barn er bod yn gyson a ni ein hunain; rhaid cyfnewid y gred er bod yn unol a phrofiad. Gallwch osod mesen mewn llestr pridd bychan, ond ni ddylech synu pan welech y dderwen yn dryllio eich llestr yn ddarnau. Llestri pridd yw llawer o'r credoau yma. Gall ddigwydd y gwna profiad bychan ffitio i mewn i gredo gul; ond fel y tyf profiad, gwna dori drwy y terfyn, myn ddyfnder daear,

myn dyfu neu gwna drengu. Nid *sŷs* yr hedyn sydd o bwys ; gall fod yn fawr, gall fod yn fychan ; y cwestiwn yw, a oes natur tyfu ynddo ? Dyna yw Undodiaeth—rhywbeth diderfyn, rhywbeth na wyr neb lle bydd ei diwedd, rhywbeth dibendraw, ond bob amser yn cyrchu at y nod.

" That God, which ever lives and loves,
One God, one law, one element,
And one far-off divine event,
To which the whole creation moves."

Yn olaf, gallwn ddweyd, gan nad faint yw hyd a lled credo Undodwr, mai creadur gwael yw os nad yw yn credu *mwy* na bobl yn gyffredin. Gall Undodiaeth ddechreu mewn bod dyn yn ymwrthod a rhyw ddaliadau neillduol ; gall y dyn yn ei ddyryswch ameu hyn a'r llall, heb yn wybod iddo'i hun bob amser lle y saif ; gall ei gymydogion edrych arno fel anffyddwr, yn myned yn gyflym tuag i waered ; gall yr eglwys edrych arno fel un colledig, tuhwnt gweddio am dano. Ond gwyr y cyfarwydd nad oes un perygl yn bod yma. Edrychwch ar blant ar yr aelwyd gartref. Mor wahanol ydynt ! 'Does dim diwedd i ofyniadau un, tawel yw'r llall a didaro ; y mae un byth a hefyd am wybod pwy a phaham, dyw'r llall yn holi dim—nid am y gwyr bob peth, ond am na theimla ddyddordeb mewn dim ; tyr un ei degan er gweled beth sydd oddifewn, gwna'r llall ei osod o'r neilldu i rydu. Y mae gobaith am y blaenaf—Undodwr yw ; gwael yw siawns y llall—pa les yw mewn byd mor llawn o ryfeddodau ? Felly hefyd gyda phlant Duw. Y mae gobaith am yr hwn all holi cwestiwn. Dyna oedd dechreu gyrfa Crist ; dyna yw dechreu hanes pob dyn mawr—holi, y meddwl agored, y syched am wybodaeth, yr awydd am wybod mwy, yr hiraeth am wybod pob peth. Dyna, unwaith eto, beth yw Undodiaeth. Bob yn dipyn ymdrechwn brofi ein pwnc. Yn y rhifynau dilynol, ein hymgais fydd—ynglyn a'r prif ddaliadau Undodaidd—i ddangos mai ein rhan ni fel enwad yw credu, nid " gormod," a nid " rhy fach," ond *mwy* na'r enwadau ereill.

PERERIN.

Y TRUGAROG.

Ti'r gwr hoff sy'n trugarhau,—wrth weinion
Pyrth unig trallodau ;
Y doeth wr, dy waith yw hau,
Eden fad o wynfydau.

Clyduch. PERLLANOG.

JOHN ISHMAEL JONES.*

I.

"Ac felly yr ydych oddeutu cael eich sefydlu yn weinidog ar eglwys yn B————?" gofynai Tom. "Yr wyf yn bresenol ar fy nhaith yna," atebai Ishmael.

Eisteddai Tom ac Ishmael yn awr ar un o'r meinciau ar hen gastell A————, ac yn ddiwyd yn adnewyddu yr hen gymdeithas, a gallasent yn ystod yr awr a haner, gylymu i fyny edafedd toredig eu hen gyfeillgarwch wrth eu pleser.

Yr oedd y Parch. John Ishmael Jones ar ol yn agos i ddwy flynedd o wasanaeth mewn gorsaf genhadol yn y gogledd, yn awr yn bump-ar-hugain oed ar ei ffordd i gymeryd gofal eglwys yn B————, yn y deheudir.

Yr oedd Tom yn gyd-ysgolhaig iddo, ryw bum' mlynedd yn henach, wedi gwneyd ffortiwn neu ddwy a'u colli, wedi priodi, a chyda'i wraig serchog a'i ddau blentyn prydferth, yn byw yn A————, mewn amgylchiadau cysurus. Yr oedd Ishmael wedi danfon brys-neges i Tom i ddyfod i gyfarfod ag ef yn yr orsaf, gan fod ganddo ryw gymaint o amser i aros yno cyn cychwyn ar ei daith tua'r de'.

Yr oedd wedi cyfarfod a rhai o aelodau pwyllgor yr eglwys yn y gogledd, ac ar ol "ymgynghoriad a dwys ystyriaeth," cydsyniodd i fyned allan fel Abraham gynt "nas gwyddai i ba le."

Ac hyd yma yr oedd mor bell ar ei ffordd. Gan ei bod yn ddydd Sadwrn, a rhaid fyddai arno i bregethu ei bregeth gyntaf y dydd dilynol, nis gallasai dalu ond yr ymweliad byr hwn yn unig a'i gyfaill.

Ac wele hwynt ill dau fraich yn mraich, yn cyfeirio eu camrau tua'r orsaf er bod yno yn brydlon. Yr oedd pob munyd yn awr yn werthfawr, a siaradent o lawnder eu calonau. Cyn gynted ag yr aethant i mewn i'r orsaf, canfyddodd Ishmael rywun yn eistedd yn y *waiting-room*, a throdd at Tom, ac a ddywedodd—"Yr wyf yn eithaf lwcus." Gallwn feddwl fod yr hen Ddafydd Edwards yn myned gyda'r un tren. "'Nawr bydd genyf gwmni da ar fy nhaith."

---

*Sylfaenir yr ystori ag mae y benod hon yn ran o honi, trwy ganiatad caredig yr awdwr, ar "Bluffton," gan y Parch. M. J. Savage, D.D., New York.

"Dafydd Edwards," dywedai Tom, "beth sydd yn ei alw ef lawr yma."

"O! anghofiais ddweyd, y mae wedi *retiro*, wedi gwerthu y fusnes, ac yn myned i dreulio gweddill ei oes yn B————. Y mae i fod yn aelod yn fy eglwys i."

"Wel, y mae yn ddrwg genyf am danoch chi." "Pa'm?" gofynai Ishmael.

"Pa'm? Ai nid ydych yn cofio yn yr hen eglwys gartref, sut yr oedd bob amser yn arogli heresi?" Yr oedd e' hyd yn ôd yn drwg-dybied yr hen weinidog, ac yn amheu a oedd e'n iach yn y ffydd. "Ac yn awr gadewch i fi eich rhybuddio ymlaen llaw, os digwydd i chwi ddysgu rhywbeth, nad yw wedi bod yn eu hen 'Dduwinyddiaeth' yn ddigon hir i rydu, mae e'n siwr o wneyd eich lle yn dwym i ch'i."

"O! yr ydych yn rhy galed arno, Tom," atebai Ishmael. "I'm meddwl i y mae yn deip o'r hen Buritan: dim yn well na dim yn waeth. Y mae yn serchog ac yn garedig yn ei gartref. Ond y mae ei holl dynerwch naturiol wedi ei osod ar yr hyn a feddyliai ef yn allor Duw. Felly y mae yn fater o ddyledswydd gydag ef i gashau ac i ymladd yn erbyn pob peth sydd yn ymylu ar heresi. Y mae wedi ei wneyd o'r un stwff ag y gwneir merthyron; y mae yn barod i farw ei hunan dros wirionedd Duw, ac fe fogai ei deimlad o ddyledswydd bob tynerwch tuag at un yr edrychai arno fel gelyn dadguddiad dwyfol. Ond y mae yn sicr o lydanu tipyn yn ei le newydd, ac ni a awn yn mlaen yn gampus."

"Wel, yr wyf yn gobeithio hyny," dywedai Tom. "Ond pwy oedd y foneddiges ieuanc yna ai canlynodd i fewn i'r tren?"

"Nis gwn," atebai Ishmael, "os nad un o'i ferched ydoedd hi. Nid wyf wedi eu gweled er pan oeddynt yn blant."

"Pwy bynag ydoedd, brysiwch i fyned i mewn, oherwydd y mae'r tren yn barod i gychwyn. Efallai y cewch ddigon o bleser yn nghwmni y ferch, i wneyd i fyny am sirioldeb yr hen Edwards."

"Nid oes genyf amser i feddwl am rywbeth o'r fath eto," dywedai Ishmael, "ond *good-bye* yn awr; ysgrifenaf ar ol dydd Sul."

Gyda'i fod yn dweyd hyn, wele y tren yn cychwyn, gyda'i lwyth gwerthfawr, a chadwai Ishmael ei ben allan, nes y collai olwg ar ei hen gyfaill Tom.

Yr oedd Ishmael wedi credu—ac nid rhyfedd ; oherwydd y mae dynion mwy doeth ac henach wedi gwneyd yr un peth o'i flaen ef—fod ei ben a'i galon yn rhy lawn o bethau eraill fel nad oedd yno le o gwbl i gariad. Yr oedd ef yn myned i ddarllen a myfyrio ; yr oedd ef yn myned i deithio a gwel'd ; yr oedd ef yn myned i brofi ei hunan, a chael allan beth oedd ynddo, a beth allasai wneyd, a thrwy hyny i wneyd iddo ei hunan sefyllfa arosol yn rhywle,—cyn y byddai yn caniatau iddo ei hunan i feddwl am gartref. Yr oedd yn benderfynol i wneyd ei hunan a'i sefyllfa yn rodd deilwng, cyn y beiddiai eu cynyg i'r fath ddynes ag a garai. Nid oedd eto wedi dysgu nad oedd gwir gariad yn dyfod wrth ei orchymyn, nac yn disgwyl i ddanfon am dano.

Ni wyddai eto nas gallesid llanw yr un pen na chalon mor llawn, fel na chawsai cariad le ynddynt, a dyfod i fewn hyd yn ôd er fod y drysau yn nghau.

Q.T.

[I Barhau.]

"GWNEWCH EICH GOREU."

2 Pedr iii. 14.

(Traddodwyd yn Furnival Street, Llundain, Medi 13eg, 1896).

Gan D. Delta Evans.

(Parhad).

Diamheu fod rhai o honoch wedi clywed son am y diweddar barchedig John Roberts, o Gonwy, yr hwn a adnabyddid yn y byd llenyddol fel "J.R." Gweinidog gyda'r Annibynwyr ydoedd, ac yn ei ddydd telid gwarogaeth iddo gan ei gydwladwyr fel un o'r ysgrifenwyr mwyaf grymus, naturiol, a swynol, yn ein iaith. Bu farw ddeuddeg mlynedd yn ol (1884), yn bedwar ugain oed. Dros ddeugain mlynedd yn ol cyhoeddwyd cyfrol brydferth o waith "J.R," dan y teitl "Traethodau, Pregethau, ac Ymddiddanion." Yn mysg ei ddarnau llenyddol goreu, y mae ganddo bregeth hyawdl ar eiriau ein testyn, ac ynddi dywed fel hyn :—"Wrth wneyd ein goreu y cawn hyfrydwch y gwaith. Y mae dyn yn fwy difyr, os nad yn fwy diflin, wrth weithio ei oreu, nag wrth fod yn llwfr. Y mae y pererin yn fwy difyr, os nad yn fwy diflin, wrth deithio ei oreu, nag ydyw wrth ymlusgo. Mae yn haws pregethu wrth i un wneyd ei oreu, nag wrth gysgu gyda hi. Wrth ymdrechu teithio, daw chwys i ireiddio olwynion y peiriant, ac y mae

yr ymdrechgar yn cael yr hyfrydwch o ddeall ei fod yn myned yn mlaen. Wrth gyfrif y gareg filldir a ddaw i'w olwg bob chwarter awr, fe ddywed, 'Yr wyf wedi myned heibio i hyn a hyn, ac ni feddaf ond hyn a hyn yn ol.' Yr agosaf i wneyd ei oreu gyda chrefydd yw y mwyaf difyr." Yn awr, oddiar safbwynt barddonol a llenyddol, diau fod y syniadau yna wedi eu dadgan mewn dull mor brydferth, ac ar yr un pryd wedi eu gwisgo mewn ieithweddau mor naturiol ac adnabyddus, nes appelio am rhyw foment gyda grym neillduol at y serchiadau Cymreig; ond ofnir mai ychydig o argraph dwfn a pharhaol a wnant ar y galon garedig a'r meddwl eang, oblegid yr amcan gwael a hunanol sydd yn eu cymell--dim ond cael myn'd i'r nefoedd. Dyna ydyw amcan mawr crefydd, yn ol pregethwyr iawn-ffyddol Cymreig. "Gwnewch eich goreu," meddant, "i gael myned yno." Dyna, hefyd, ydyw baich pregeth "J.R," ac fel hyn y dywed:—"Rhaid bod ag un amcan mewn golwg Pan y mae un yn gwneyd ei oreu gyda dau beth, ni wna ond haner ei oreu gyda phob un. Pan y mae un yn gwneyd ei oreu gyda phedwar o bethau, ni wna ond chwarter ei oreu gyda phob un. Y mae yr un sydd yn gwneyd ei oreu â chanddo un peth mewn golwg, a phar i bob peth fod yn iswasanaethol i gyraedd hwnw. Felly am yr hwn sydd yn gwneyd ei oreu ar ei gael ganddo ef mewn tangnefedd, *myned i'r nefoedd yw ei brif nod;* ac ni wna sylw o ddim, na chyfeillach â neb, os na roddant law iddo i fyned yno. Caiff ei fywyd, ei iechyd, ei ymborth, ei wisgoedd, ei aur, ei arian, ei berthynasau, a'i gyfeillion, fod yn gynorthwywyr iddo fyned *yno*. Ac os bydd gwyntoedd gwrthwynebol yn cyfodi, y mae fel y morwyr cyfarwydd, yn gosod ei hwyliau yn y fath fodd ag y bydd raid i'r rhai hyny bwyso arnynt, a hwylio ei lestr yn gyflymach i'r porthladd a ddymuna." Fel yr awgrymais, nid ydwyf ar un cyfrif yn gwadu nad oes rhywbeth yn swynol ac atdyniadol iawn ar yr olwg gyntaf arno yn y drychfeddwl hudoliaethus hwn am wynfyd a mwynhad y nefoedd; ond, gyfeillion, a ydyw yr amcan hunanol hwn o ochelyd tan uffern ar y naill law, a sicrhau lle yn y nefoedd ar y llaw arall, yn deilwng o'r ymgais a wneir yn gyffredin i'w gyraedd? A ydyw yn haeddu un amrantiad o'n horiau hamddenol, un ymgais fwriadol o'n heiddo, heb son am ein holl amser a'n holl egni? Prin y credwn ni fod hyn yn ffurfio y rhan bwysicaf yn nghrefydd Iesu o Nazareth. Anhawdd ydyw canfod dim yn nysgeidiaeth ac esiampl yr Athraw ddarfod iddo erioed ei osod i lawr fel yn anhebgorol angenrheidiol i ni gysegru holl gynneddfau urddasol ein natur, holl gyfleusderau amrywiol bywyd, holl freintiau a manteision addysg a diwylliant, a holl ymdrechion llafurlawn oes o amser, i ddim ond i fyfyrio yn freuddwydiol ar ogoniant paradwysaidd nefoedd ddychymygol, ac i edrych yn mlaen yn wancus am *front seats* yno, a chael coron o aur ar y pen, a thelyn o'r un defnydd yn y dwylaw! Pwy a wyr nad llafur fydd amod dedwyddwch yno hefyd? Pwy a wyr na bydd yn

rhaid i ni weithio yn myd yr ysbrydoedd? Os gwnawn ni ein goreu yn y byd a'r bywyd hwn, efallai y byddwn yn barotach i weithio ac i wneyd ein goreu gyda'n gwaith wedi myned o hono. Ond prin y meddyliaf y dylem ni bryderu gymaint ynghylch y dyfodol. Onid oes gyda ni ddigon o ffydd yn nghyfiawnder hanfodol a chariad tragwyddol Duw i ymddiried y pethau hyn yn llwyr iddo Ef? Na, yn hytrach nag ymsynio am ddiogelwch y dyfodol, a dedwyddwch ein heneidiau ein hunain yn y nefoedd, bydded i ni wneyd ein goreu i ddwyn oddiamgylch yma nefoedd newydd a daear newydd yr apostol, yn y rhai y bo cyfiawnder yn cartrefu, gan adael y canlyniadau yn hollol yn ngofal y Tad goreu! Deffrown, ynte, ac ymegniwn, a byddwn o ddifrif gyda'r gwaith sydd o'n blaen ni.

"Dream not, but work! Be bold! be brave,
Let not a coward spirit crave
Escape from tasks allotted!
Thankful for toil and danger be;
Duty's high call will make thee flee
The vicious—the besotted.

Think not thy share of strife too great;
Speed to thy post, erect, elate;
Strength from above is given
To those who combat sin and wrong,
Nor ask how much, nor count how long,
They with the foe have striven!

Wage ceaseless war 'gainst lawless might—
Speak out the truth—act out the right—
Shield the defenceless.
Be firm—be strong—improve the time—
Pity the sinner—but for crime
Crush it—relentless!

Think, speak and act 'gainst mean device;
Wrestle with those who sacrifice
The many to the few;
Strive on, strive on, nor ever deem
Thy work complete. Care not to seem,
But be, a Christian true."

Y GORTHRYMYDD.

Orthrymwr! yr uthr rwymau—wnei er dal
Gwyr Duw yn nglyn eisiau;
Tithau a gei hwynt i'th gau,
Yn newyn anwn-waeau.

Clydach. PERLLANOG.

ESGOB RHYDDFRYDIG.

Mae yr adran o'r enwad Methodistaidd y perthyn yr Esgob John H. Vincent iddi, yn rhifo dros 2,500,000, ac felly yr adran enwadol o'r cyfundeb crefyddol lliosocaf yn y wlad hon; ac o herwydd hyn y mae daliadau a symudiadau gwr o'i safle ef o gryn bwys. Pwnc sydd yn destyn dadl a ymyla ar fod yn chwerw, yw uniongrededd yr Esgob Vincent; ac nid hwn yw y tro cyntaf i'r esgob gael ei alw i gyfrif. Mae y ddadl bresenol yn dal perthynas a rhywbeth a ddywedodd Mr. Vincent mewn araeth yn Chautauqua yr haf diweddaf. Cyhuddodd gohebydd i'r *Christian Observer* ef o ddweyd "nad oedd dwyfoldeb Crist yn erthygl hanfodol o'r ffydd Gristionogol." Cymerwyd y mater i fyny gan y *Presbyterian Banner*, yr hwn a ddaeth i lawr yn lled lawdrwm ar yr esgob, ac ar Chautauqua. Anfonodd golygydd y *Christian Advocate* y dyfyniad anuniongredol i'r Esgob Vincent, gyda dymuniad am wybod a oedd wedi dweyd yr hyn a briodolid iddo. Atebodd yntau fod y dyfyniad honedig yn gwneyd cam ag ef, ac yn hollol groes i'w olygiadau. Yna daeth golygydd y *Presbyterian* allan mewn erthygl faith, yn amcanu profi trwy dystiolaeth personau a glywsant yr esgob yn siarad, ei fod wedi defnyddio y geiriau a briodolid iddo. Dyfyna hefyd y *Chautauqua Assembly Herald*, fel yn dweyd fod yr "Esgob Vincent wedi dweyd nad oedd yn angenrheidiol credu yn nwyfoldeb Crist er bod yn gadwedig.

Wrth amddiffyn yr esgob yn y rhifyn diweddaf o'r *Christian Advocate*, dywed Dr. Buckley, y golygydd, mai yr hyn a ddywedodd y *Chautauqua Assembly Herald* am Dr. Vincent oedd: "Gwnaeth yr Esgob Vincent araeth gref o blaid rhoi duwinyddiaeth gredoawl o'r neilldu pan y mae iachawdwriaeth enaid yn y fantol Sylwodd yn neillduol ar yr athrawiaeth o ddwyfoldeb Crist, a'r ffaith nad yw peidio credu yn nwyfoldeb Crist o angenrheidrwydd yn atalfa i ddyn ddyfod yn Gristion." Dywed Dr. Buckley fod hyn a gyhoeddodd y *Presbyterian* fel dyfyniad.

Manion ac Banesion.

NODIAD.—Am ein bod yn ail-argraffu yr erthygl ar Gwilym Marles, gorfu arnom adael allan yr erthygl mewn llaw ar "Y Parch. J. James." Blin iawn genym am yr anffawd a fu yn achos o hyn.

DOWLAIS.—Deallwn fod Mr. J. E. Jenkins, o Goleg Iesu, Rhydychain, wedi ateb yr alwad a gafodd oddiwrth yr eglwys Undodaidd yn y lle hwn, yn foddhaol. Mawr lwyddiant iddo.

CYNGHOR PLWYF RHYNDWYCLYDACH.—Yn y cyfarfod diweddaf a gynhaliwyd gan y cyngor uchod, appwyntiwyd yn unfrydol Mr. Wm. Howel Thomas, Trebanos, yn ymddiriedolwr *(trustee)* ar elusenau *(charities)* y plwyf uchod. Y mae Mr. Thomas yn aelod o'r cyngor uchod, ac hefyd yn is-gadeirydd yr unrhyw gyngor, ac hefyd yn aelod flyddlon yn Nghapel y Graig, Trebanos.

Llwynrhydowen.—*Y Nadolig.*—Dydd Nadolig lawen dreuliwyd yn y Llwyn, drwy i fadiad hollol newydd gymeryd lle yma, yr hyn na fu erioed yn nghof y rhai sydd yma yn awr. Am ddeg yn y boreu yn y Capel Newydd, daeth y chwaer-Ysgol Sul y Bwlch a'r Llwyn yn nghyd fel arfer i ymwneyd a llafur yr Ysgol Sul, ac arholwyd gan Mr. Jas. Jenkins, Blaenwaun, oddiar Marc xi a xiii., a gwnaeth y ddwy ysgol eu rhan yn dda yn ol eu harfer. Hefyd darfu i'r plant adrodd o'u cof ran o'r Holwyddoreg yn dda; canwyd tonau y rhaglen, a chafwyd cyfarfod hwylus, y ddwy ysgol mewn undeb a llewyrch rhagorol. Ar ol terfynu cyfarfod y boreu, rhoddwyd te i Ysgol Sul y Bwlch, a phawb eraill o bell, gan bobl dda y Llwyn. Am 6 yn yr hwyr, yn yr Hen Gapel, cynhaliwyd cyfarfod adloniadol i'r ienainc ac eraill. Llywyddwyd gan Captain Davies, Rhydowenfach, ac arweiniwyd gan Mr. J. R Thomas, Pontshân. Rhoddwyd *Christmas Tree* i blant Ysgol Sul y Llwyn gan Mr. a Mrs. Davies, Rhydowenfach, ac yr ydym oll fel aelodau o'r lle hyn yn trosglwyddo ein diolchgarwch, a'n parch mwyaf i Mr. a Mrs. Davies am eu rhoddion beunyddiol tuag at yr achos da yn y lle hwn.

Capel y Graig, Trebanos.—Cynhaliwyd gwyl de flynyddol Ysgol Sul y lle uchod, dydd Nadolig, pryd y daeth torf liosog ynghyd i gyfranogi o'r danteithion parotoedig. Yr oedd yr hen ysgoldy wedi ei addurno yn brydferth ar gyfer yr amgylchiad, a gwasanaethwyd yn ffyddlon wrth y byrddau gan foneddigesau ieuainc y lle. Wedi mwynhau y danteithion blasus, awd i Ysgoldy y Bwrdd, i fwynhau gwledd o natur arall, sef gwledd i'r meddwl. Am saith o'r gloch, sef yr amser apwyntiedig i ddechreu, yr oedd yr ysgoldy eang wedi ei orlenwi. Cymerwyd y gadair gan y Parch. T. J. Jenkins, ein parchus weinidog, a chawsom ganddo araeth fer, bwrpasol. Yna galwodd ar yr arweinydd, sef Mr. L. H. Thomas, Llansamlet, at ei waith, ac arweinydd o'r iawn ryw ydoedd hefyd. Cadwodd y dorf yn hollol o dan ei lywodraeth am dros ddwy awr a haner o amser. Cawd anerchiadau barddonol gan y Mri. D. Davies, John J. Williams, Ben Davies, ac Henry Morgan. Chwareuodd seindorf bres y lle (25 mewn nifer) amryw ddarnau yn wir feistrolgar. Yr ydym yn dymuno diolch yn wresog i'r brodyr ffyddlon John H. Morgan ac Henry H. Morgan am gyfeilio mor fedrus ar yr *harmonium*; ac hefyd i John J. Williams a John Jones am drefnu y rhaglen, a pharotoi *comic suits*, a phethau eraill er cario y cyfarfod yn mlaen yn llwyddianus. Teg ydyw hysbysu fod y cyfarfodydd blynyddol hyn yn cael eu cario yn mlaen yn gyfangwbl gan gyfeillion perthynol i Gellionen a Chapel y Graig, ac y mae yr atdyniad iddynt yn rhyfeddol.

Cymanfa Gerddorol Ceredigion.—Yr wyf fel ysgrifenydd y Gymanfa hon yn teimlo dyledswydd arnaf i wneyd pob peth a allaf er hyrwyddo Cymanfa lewyrchus mewn llawer ystyr, ond credaf mae y peth doethaf allaf wneyd ar ei rhan ydyw —ceisio gan bob arweinydd i wneyd ei oreu, a chychwyn ar waith y *programme* ar unwaith, os nad wedi dechreu yn barod. Drwg genyf ddweyd fod y Gymanfa hon yn raddol golli ei dylanwad yn ystod y tair blynedd diweddaf yma, a hyny efallai am fod gwaith y Gymanfa yn cael ei esgeuluso i raddau pell, a phawb dan y drychfeddwl fod eraill yn gweithio drostynt, dyma yw fy mhrofiad personol fy hun am dani yn y cylch hwn, ond gobeithio bydd pawb eleni yn cario ei groes ei hun, yna bydd Cymanfa 1897 mewn gwell llewyrch na'r rhai blaenorol. Cofiwch mewn undeb mae nerth. Caraf adgoffa Nodiad I i'r holl arweinwyr a'r gweinidogion, a chario allan y cynllun mor belled ag y mae yn bosibl, a bydd hyn yn sicr o fod yn help ar gyfer y Gymanfa, ac i eraill nad sydd yn ymarfer llawer a'r llyfr newydd. Cri mawr pob Cymanfa yw fod y plant yn cael eu hysgeuluso; felly taer ddymunir eleni ar bob capel barotoi y plant yn barod erbyn y *rehearsal* gyntaf, gan bydd iddynt eleni gael rhan flaenllaw yn y Gymanfa, felly ati o ddifrif, ynte, a rhoddwch bob cynorthwy iddynt,

gan fod dyfodol y Gymanfa yn ymddibynu arnynt. Hefyd, mae'r pwyllgor wedi penderfynn talu am dystysgrifau *(certificates)* i blant dan 13eg oed mewn gwybodaeth yn elfenau cerddoriaeth, a gobeithio fod y penderfyniad hwn yn cael ei fabwysiadu gan bob ysgol, gan y bydd i hyn godi safle gwybodaeth yr ieuainc yn uwch, a gweithio yn fwy egniol gyda dyfalbarhad i allu uwchlaw yr hyn mae mwyafrif y Gymanfa yn feddu arno ar hyn o bryd.—JOHN JONES, *Ysg.*

Marwgofion.

Rhagfyr y 23, wedi cystudd byr, yn 54ain mlwydd oed, Sarah, anwyl briod David Evans, Tynewydd, Drefach, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Alltyplaca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

Ionawr 17eg, yn 76ain mlwydd oed, ar ol tair blynedd o gystudd, John Thomas, Aberythan, ger y Gorrig, Llandysul. Claddwyd ei weddillion marwol y dydd Mercher canlynol, yn mynwent Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas. Gadawodd wyth o blant i alaru ar ei ol.

Rhagfyr 3ydd, yn ddisymwth iawn, Margaret, gweddw y Parch. Titus Lloyd (ieu.), Porthcawl, yn 73ain mlwydd oed. Gwasanaethwyd yn y ty anedd gan y Parch. Mr. Evans (A.); ac yn mynwent plwyf Dre'newydd yn Notais, gan y Parch. R. Jenkin Jones, yn Gymraeg; a'r Parch. Mr. Southwell (A.), yn Saesneg. Yr oedd y cynhebrwng yn anarferol liosog, ac yn arwydd o'r parch a deimlid yn y gymydogaeth ar ol yr ymadawedig. Caffed ei thair merch fodd i ymdawelu yn y syniad nad yw ond wedi blaenu ychydig bach cyn y cant fyn'd ati yn y man i dy ein Tad, lle mae llawer o drigfanau.

Rhagfyr 18fed, ar ol cystudd trwm, yn 66 oed, bu farw Mary, anwyl briod Thomas Evans, crydd, Porthyrhyd, Llandysul, a chladdwyd hi y Llun canlynol yn mynwent newydd y Llwyn. Pregethodd Mr. T. Thomas, Green Park, ar yr achlysur, a chymerwyd y rhan ragarweiniol gan y Parch. T. A. Thomas, gweinidog Pantdefaid. Gwanaidd o gorff oedd yr ymadawedig erioed, a chanolig ei hiechyd. Er hyny yr oedd yn fam i 8 o blant, o ba rai y mae chwech yn fyw, oll yn briod oddieithr un mab. Cofied ei phriod a'r plant, sydd mewn hiraeth ar ei hol, fod Duw wedi addaw bywyd ar ol angau, a buddugoliaet i ar y bedd.

Y dydd cyntaf o'r flwyddyn hon bu farw Rees Evans, Tynewydd, Gyfeile, Llandysul, yn 90ain oed, a chladdwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn Pantdefaid, lle yr oedd dau o'i frodyr ac un chwaer wedi ei flaenu ynghyd a'i anwyl fab. Ni chafodd gystudd o gwbl braidd, oddieithr fod gwendid yn gyfryw. Bu farw fel y diffodda canwyll wedi llwyr losgi allan. Yn ei amser goreu yr oedd yn ddyn adnabyddus a pharchus yn y cylch hwnw o fywyd yn mha un oedd yn troi, sef fel ffermwr. Nid wrth ei siarad yr oedd ei adnabod, oblegid mewn ymddiddan medrai arfer geiriau sarug a miniog, fel y gallai dieithr ddyn feddwl mai dyn dideimlad a chreulon ydoedd, ac oherwydd hyn gwnai anghyfiawnder mawr ag ef ei hunan yn aml. Yr oedd o galon dyner a charedig, a'r rhai a'i adwaenent oreu a wyddent hyny yn dda. Undouwr ydoedd, a chyfranodd yn haelfrydig tuag at adgyweirio capel Pantdefaid. Gadawodd ar ei ol weddw oedranus i alaru dros weddill ei dyddiau, yn nghyd a phedwar o wyrion. Gadawodd hefyd un brawd, yr hwn sydd yn sengl, ac mewn gwth o oedran—yr olaf o deulu yn mhlith y parchusaf yn y plwyf, a byddod iddo gael gorphen ei yrfa mewn gobaith a thangnefedd.

ARGRAFFWYD GAN GWMNI Y "TIMES" JOHN STREET, MERTHYR.